# Rhestr Wirio CV

## ➲ PWYNTIAU ALLWEDDOL I'W COFIO

- Mae gennych chi tua 5 eiliad i wneud argraff ar ddarpar darllenwyr pan maent yn edrych ar eich CV am y tro cyntaf, i'w perswadio i ddarllen ymlaen
- Offeryn marchnata yw CV – cyfle i chi wahaniaethu rhyngoch chi a'r ymgeiswyr eraill ac i ddenu sylw atoch chi eich hun
- Mae cwmnïoedd yn gwario miliynau o bunnoedd ar strategaethau marchnata ar gyfer eu cynhyrchion; mae gennych chi ddwy dudalen
- Mae angen i chi gyflwyno eich hun yn ddigon effeithiol ar ddechrau eich CV i ddenu sylw ac i argyhoeddi'r cyflogwr i barhau i ddarllen – cofiwch y 5 eiliad!
- Yn gyffredinol, pwrpas CV yw cael cyfweliad i chi, nid o reidrwydd swydd
- Defnyddiwch y disgrifiad swydd i helpu chi ganolbwyntio ac addasu eich CV fel ei fod yn benodol ac yn cyfeirio at feini prawf yr hysbyseb yn effeithiol
- BYDDWCH YN ONEST!

## ➲ SUT I GYFLWYNO'R WYBODAETH

- Byddwch yn gryno, clir a phroffesiynol
- Tybiwch fydd eich CV yn cael ei sganio y tro cyntaf, nid ei ddarllen yn drylwyr fel 'rydych chi'n disgwyl
- Rhowch eich hun yn lle y cyflogwr ac yna meddyliwch eto am eich CV

Petaech chi yn gyflogwr ac wedi hysbysebu swydd yn ddiweddar, ac o ganlyniad mae 150 CV ar eich desg, sut buasech chi'n teimlo am eu darllen i gyd? Byddech chi'n sganio trwyddyn nhw'n gyflym gan ddewis y sawl sy'n denu eich sylw rhywsut? Beth fyddech chi wir yn edrych amdano i helpu chi benderfynu pwy i alw am gyfweliad?

Wedi ystyried pethau o safbwynt cyflogwr, meddyliwch eto yn awr am gynnwys eich CV a sut 'rydych chi wedi cyflwyno'r wybodaeth. Dim ond dwy dudalen sydd gennych ond nid yw'n ddichonadwy llwytho nhw gyda geiriau neu fydd cyflogwyr byth yn eu darllen. Sicrhewch eich bod yn ennyn yr ymateb mwyaf o bob gair 'rydych yn defnyddio.

- Dangoswch i'r cyflogwr eich bod yn addas ar gyfer y swydd a'ch bod yn meddu ar y cymwyseddau perthnasol (sgiliau, gwybodaeth, profiad a phriodoleddau personol)
- Byddwch yn sicr eich bod yn deall yn iawn beth mae'r cyflogwr yn edrych amdano yn ogystal â gwerthfawrogi'r holl sgiliau a medrau 'rydych chi wedi datblygu yn barod o bob agwedd o'ch bywyd hyd yn hyn
- Bydd nifer o gliwiau ym manylion y swydd, disgrifiad y swydd a manyleb yr unigolyn. Os nad oes gennych chi'r rhain mae angen i chi wneud ymchwil galwedigaethol mwy cyffredinol i archwilio'r ystod o gymwyseddau 'rydych yn debygol o fod eu hangen. Gweler www.prospects.ac.uk/job-profiles am ragor o fanylion.

Cynnig yr enghraifft dros y ddalen **un dull posib** o lunio CV. Efallai na fyddech chi eisiau defnyddio'r holl benawdau sydd wedi eu nodi na'u rhoi nhw yn y drefn a gynigir, ond mae'n enghraifft o sut i gyflwyno eich hun yn effeithiol. Cofiwch mae wedi ei wasgu i un dudalen er mwyn y daflen hon ond byddwch chi'n fwy tebygol o ddefnyddio **dwy dudalen**.

Am wybodaeth mwy manwl ar gynhyrchu CV, gan gynnwys cyngor ar ddiwyg a fformatio, gofynnwch am gopi o'n llyfryn CVs.

Am gyngor pellach ac awgrymiadau ar eich CV ac i weld enghreifftiau, gweler
https://www.prospects.ac.uk/careers-advice/cvs-and-cover-letters
https://targetjobs.co.uk/careers-advice/job-hunting-tools-downloads

I gael syniad gwell o'ch cymwyseddau, ymwelwch â
https://targetjobs.co.uk/careers-advice/skills-and-competencies

Cymerwch olwg ar ein taflen - Beth mae cyflogwyr ei eisiau, mewn gwirionedd?
https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/careers/pdf/whatempswant_cy.pdf


© 2017 Gwasanaeth Cynghori ar Yrfaoedd, Prifysgol Aberystwyth.

# NIA HUMPHRIES

2 Lôn Las, Aberteifi, Ceredigion, SA16 6SE
Ffôn: 01239 875800 Symudol: 08947 28562 E-bost: nia.humphries@virgin.net

**PROFFIL PERSONOL**

Myfyrwraig Daearyddiaeth yn ei blwyddyn olaf sydd â dealltwriaeth am faterion rheoli ecolegol yn ogystal â phrofiad ymarferol o adfer cynefinoedd. Bellach yn ceisio ehangu ar y gwaith diweddar gyda chyrff amgylcheddol cenedlaethol a rhanbarthol a defnyddio sgiliau datblygedig o ran dadansoddi ac ymdrin â phobl, mewn gweithle cadwraethol sy'n canolbwyntio ar yr ymwelwyr.

**PROFIAD GWAITH PERTHNASOL**

2017 **RSPB Gwarchodfa Natur Ynys-hir, Machynlleth**

- Trefnais a blaenoriaethais fy amserlen gwaith
- Cofnodais a dadansoddais niferoedd ymwelwyr yn dilyn ymgyrch genedlaethol
- Adroddais y casgliadau yng nghynhadledd RSPB Cymru drwy gyflwyniad i 180 o bobl
- Datblygais sgiliau cyfathrebu a gwaith tîm wrth drafod a negydu'n effeithiol a'm cyd-weithwyr

2016 **Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Dyfnaint, Caerwysg**

- Cliriais lan afon yn rhan o dîm bychan ar gyfer ail-gyflwyno dyfrgwn
- Paratoais ddeunydd cyhoeddusrwydd cyn i'r gwaith gychwyn
- Datblygais sgiliau gweithio mewn tîm a sgiliau cynllunio

**PROFIAD GWAITH ARALL**

2013 - 2014 **Gweinyddes, Pizza Express, Aberteifi**

- Cymrais archebion a chymerais gyfrifoldeb achlysurol am gyfrif yr arian
- Datblygais sgiliau rhyngbersonol a sgiliau blaenoriaethu

**SGILIAU PELLACH**

**Ieithoedd** Ffrangeg (gallu cynnal sgwrs; sylfaenol yn ysgrifenedig)
**TG** Defnydd digonol o MS Office (Word, Excel a PowerPoint), e-bost a phecynau feddalwedd
**Trwydded gyrru lawn lân**

**ADDYSG A CHYMWYSTERAU**

2015 - 2018 **Prifysgol Aberystwyth**
BA (Anrhydedd) Daearyddiaeth (disgwyliedig 2:ii)
Modiwlau perthnasol

- Rheolaeth Amgylcheddol
- Dadansoddi a Chyflwyno Data Meintiol

2008 - 2015 **Ysgol Uwchradd Aberteifi**
Safon Uwch: Daearyddiaeth (B), Saesneg (C), Ffrangeg (D)
TGAU: 8 safon A-C (yn cynnwys Mathemateg a Saesneg)

**CYRAEDDIADAU ERAILL**

2015 - 2017 **Tîm Tennis (1af) Prifysgol Aberystwyth**
Capten Tîm y Merched

- Trefnais chwech gornest yn erbyn prifysgolion eraill Cymru
- Codais nawdd o £400 ar gyfer dilladu'r tîm

2010 - 2015 **Aelod o Gerddorfa Ieuenctid Ceredigion**

- Ffliwt (Gradd 6)

**DIDDORDEBAU**

Rwy'n aelod o'r RSPB ac o Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru ac yn mwynhau gwybod y diweddaraf am faterion amgylcheddol. Rwyf hefyd yn mwynhau mynd i'r theatr i weld dawnsio a drama gyfoes, wedi teithio yn helaeth yn Ewrop yn ystod haf 2015 ac yn mwynhau dysgu am ddiwylliannau eraill.

**CANOLWYR**

Dr Cirque Moutonne, Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Prifysgol Aberystwyth, SY23 3DB
Ffôn: 01970 62xxxx / E-bost: xxx@aber.ac.uk

Mr Dyfrgi Otter, Gwarchodfa Natur RSPB Ynys-hir, Cae'r Berllan, Eglwys-fach, Machynlleth, SY20 8TA
Ffôn: 01654 700xxx / E-bost: xxx@rspb.org.uk